Landlordiaid

Canllaw ar ddyletswyddau'r landlord: Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998



Mae hwn yn fersiwn gwe-gyfeillgar o daflen INDG285W(rev2), a adolygwyd 03/09

Mae'r daflen hon wedi'i hanelu at landlordiaid ac yn esbonio rhai o brif ofynion Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998. Mae hefyd yn rhoi canllaw ar sut i gydymffurfio â nhw (gweler y testun yn y blwch). Bydd y daflen hefyd o ddiddordeb i denantiaid, gan eu gwneud yn ymwybodol o ddyletswyddau eu landlordiaid.

Bob blwyddyn mae tua 14 o bobl yn marw o wenwyno carbon monocsid a achosir gan offer nwy neu simneiau na chawsant eu gosod na'u cynnal a'u cadw'n iawn. Mae llawer hefyd yn dioddef o salwch.

Mae Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 yn delio'n benodol â gosod, cynnal a chadw a defnyddio offer, gosodiadau a simneiau nwy yn y cartref ac mewn rhai adeiladau masnachol. Maent yn gosod dyletswyddau ar rai landlordiaid* i sicrhau bod offer, gosodiadau a simneiau nwy a ddarperir at ddefnydd tenantiaid yn ddiogel.

Mae'r dyletswyddau hyn i ddiogelu'r tenantiaid yn ychwanegol at y dyletswyddau mwy cyffredinol sydd gan landlordiaid o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

* Gellir gweld manylion y landlordiaid hyn yng Nghod Ymarfer Cymeradwy ar Reoliadau HSE (gweler yr adran 'Darllen pellach').

Pa fath o eiddo sy'n cael ei gwmpasu?

Yn gyffredinol mae'r dyletswyddau'n berthnasol i offer a simneiau a ddarperir i'w defnyddio gan denantiaid mewn 'adeiladau perthnasol', sef y rhai a ddefnyddir at ddibenion preswyl o dan drwydded, cytundeb tenantiaeth am gyfnod penodol, neu brydles fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau. Cwmpesir bron pob prydles sy'n llai na saith mlynedd.

Beth yw fy mhrif ddyletswyddau fel landlord?

Mae'n ofynnol i chi:

- sicrhau bod gosodiadau nwy a simneiau yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel. Dylid cynnal a chadw'r offer nwy yn unol â chyfarwyddiadau'r cyflenwr. Os nad yw'r rhain ar gael argymhellir y dylai gael ei wasanaethu'n flynyddol oni bai bod peiriannydd Gas Safety cofrestredig yn eich cynghori fel arall;
- sicrhau bod archwiliad diogelwch blynyddol yn cael ei gyflawni ar bob offer/simnai nwy. Cyn bod unrhyw brydles newydd yn dechrau, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y profion hyn wedi'u cyflawni flwyddyn fan bellaf cyn i'r brydles ddechrau, oni bai bod yr offer wedi'i osod yn yr adeilad ers llai na blwyddyn, ac os felly dylid archwilio'r offer o fewn blwyddyn o ddyddiad gosod yr offer;
- sicrhau bod peiriannydd Gas Safety cofrestredig yn cyflawni'r gwaith gosod a chynnal a chadw ac yn archwilio'r offer;